



Ein cyf/Our ref MA - P/KW/0912/19

Mrs Sharron Lusher  
Cadeirydd  
Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru  
d/o yr Ysgrifenyddiaeth  
Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru  
[ysgrifenyddiaeth@gca.cymru](mailto:ysgrifenyddiaeth@gca.cymru)

29 Mawrth 2019

Annwyl Sharron

## **TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I GORFF ADOLYGU CYFLOGAU ANNIBYNNOL CYMRU**

Diolch am eich gwahoddiad i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar y materion y manylwyd arnynt yn fy nghylch gwaith i chi.

Fel y gwyddoch, gwaith Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yw awgrymu newidiadau y dylid eu gwneud i gyflog ac amodau athrawon er mwyn codi statws y proffesiwn a rhoi'r cymorth gorau i recriwtio a chadw athrawon ac arweinwyr o ansawdd uchel yn ein hysgolion. Am y flwyddyn gyntaf, gofynnwyd i'r Corff ond ystyried y materion hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflogau, ac rwy'n gweld eich bod wedi ystyried y cylch gwaith, a'ch bod wedi gofyn am dystiolaeth yn unol â hynny.

Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth a data ar faterion sy'n ymwneud â chyflogau athrawon yn unig, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r economi ehangach a chyd-destun ariannol y sector cyhoeddus a allai fod o gymorth i chi yn ystod eich trafodaethau.

Fel sy'n digwydd gydag unrhyw benderfyniad ynghylch cyflog yn y sector cyhoeddus, mae'n hanfodol bod argymhellon yn rhoi ystyriaeth i gyd-destun economaidd a chyllidol presennol Cymru, ac yn bwysicach na hynny, rhaid ystyried a oes modd cyflawni'r cynnydd yng nghyflogau athrawon heb roi straen gormodol ar gyllidebau ysgolion. Mae gwybodaeth fanwl am gyllidebau awdurdodau lleol a chyllidebau ysgolion wedi'i hatodi gyda'r cyngor hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
Correspondence: [Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n credu bod ystyried y data hyn yn hanfodol i'ch trafodaethau, gan fod hyn yn nodi pa effaith a gaiff unrhyw argymhellion mewn termau real.

Mae'r data gan Lywodraeth Cymru hefyd yn rhoi trosolwg o'r broses recriwtio a chadw staff yng Nghymru. Yn hanesyddol, mater i Llywodraeth San Steffan yw hyn ac mae trafodaethau'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol wedi canolbwyntio arno, ond sylwch bod y data yn dangos mai prin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod hyn yn bryder sylweddol ledled Cymru.

Er ein bod yn ymwybodol ei bod yn anodd mewn rhai ardaloedd i recriwtio athrawon mewn rhai pynciau uwchradd, yn ogystal â chael darpariaeth cyfrwng Cymraeg i bynciau penodol, rwy'n credu mai drwy raglenni polisi wedi'u targedu yw'r dull mwyaf effeithiol o weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion ysbeidiol hyn. Rwy'n credu y gallai dull cyffredinol o recriwtio sy' n rhagdybio'r un prinder ym mhob man yn creu anawsterau anfwriadol mewn mannau eraill. Oherwydd hynny, rwy'n cynnig bod unrhyw gynnydd arfaethedig mewn cyflog yn cael ei ddyrannu yn gyfartal ar draws holl gyflogau athrawon ac arweinwyr ysgolion gan sicrhau dosbarthiad teg ar draws y gweithlu cyfan.

Efallai y byddwch yn dymuno nodi bod Llywodraeth Cymru wedi dweud na fydd y proffesiwn yng Nghymru yn dioddef 'dim cyflog nac amodau anffafriol' o'i gymharu a'u cyfoedion yn Lloegr. Dylai'r Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru gadw mewn cof bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cadarnhau y gellid fforddio 2% o gynnydd a dim mwy ar draws yr holl gyflogau yn Lloegr.

Er hynny, dylid nodi y byddai unrhyw gynnydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllidebau awdurdodau lleol a chyllidebau ysgolion. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n cynnig na ddylai unrhyw argymhellion sy'n cael eu gwneud fod yn fwy na 2% o'r bil cyflog, er mwyn cydnabod y pwysau ariannol wynebier o ganlyniad i bolisi cyni Llywodraeth San Steffan. Bydd unrhyw gynnydd sy'n fwy na hyn o bosibl yn rhoi pwysau nad oes modd eu cynnal ar gyllidebau ysgolion.

Diolch yn fawr unwaith eto am y gwahoddiad i gyflwyno dystiolaeth. Rwy'n edrych ymlaen at gael eich argymhellion unwaith y bydd yr ymarfer hwn ar ben.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
Correspondence: [Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.